Awyrluniau Hen Ddiwydiant

gan Gwaith Maes

Awgrymu un trywydd i'w ddilyn ar sail yr awyrluniau yw pwrpas y cwestiynau isod. Byddai trefnu ymweliad â'r ddwy safle'n fuddiol a diddorol, ac mae digon o wybodaeth ar gael am y datblygiadau diweddaraf yng Nglyn Ebwy.

Mae hawlfraint y lluniau yn eiddo i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a dymuna Cymdeithas Gwaith Maes gydnabod ei diolch iddynt am eu cefnogaeth a'u cymorth.

Bydd angen y mapiau Arolwg Ordnans canlynol:

Y Fenni a'r Mynydd Du	[Cyfeirnod gwaith dur Glyn Ebwy: 175085]	
	Landranger 161	1:50 000
Aberystwyth	[Cyfeirnod gwaith plwm Goginan: 693821]	
	Landranger 135	1:50 000

1. Beth ydy cyfeiriad safle Glyn Ebwy o dref Y Fenni?

2. Beth ydy cyfeiriad safle Goginan o dref Aberystwyth?

3. Beth ddigwyddodd i safle gwaith dur Glyn Ebwy rhwng 2001 (llun A) a 2003 (llun B)?

4. Pam y bu'r newid?

5. Pa ddatblygiadau pellach fydd yn debygol o ddigwydd yma? Am ba resymau?

Llun A
Safle gwaith dur Glyn Ebwy 2001

Hawlfraint y Goron: CBHC

Llun B
Safle gwaith dur Glyn Ebwy 2003



Hawlfraint y Goron: CBHC

Llun C
Safle hen waith plwm Goginan yn 2004

Hawlfraint y Goron: CBHC

Caeodd gwaith plwm Goginan dros 120 o flynyddoedd yn ôl ac mae llun C yn dangos y safle heddiw. Gwaith bychan fu Goginan erioed ac ychydig o ddynion oedd yn gweithio yno.

6. Nodwch sut mae'r safle wedi newid ers i'r gwaith gau.

7. Pam na ddatblygodd safle Goginan yn yr un ffordd ag y mae Glyn Ebwy yn debyg o wneud?